*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
***RHONDDA CYNON TAF***
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Jones - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol (07385401954)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **Is-bwyllgor Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG** yn cael ei gynnal ar **Dydd MAWRTH, 17EG HYDREF, 2023** am **10.30 AM.**

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Gwener 13 Hydref trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Derbyn cofnodion o gyfarfod Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 9 Mai, 2023.

**3 - 6**

3. **RHAGLEN WAITH IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG 2023-2024**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n rhoi rhestr arfaethedig i Aelodau o faterion sydd angen eu hystyried gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2023–24.

**7 - 12**

4. **GWELLA PROSES RECRIWTIO'R CYNGOR O RAN DENU SIARADWYR CYMRAEG 2022-2027**

Derbyn adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned a Chyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n gofyn am gymeradwyaeth i ddechrau ar y gwaith o ddrafftio cynllun gwarantu cyfweliad cyraeddadwy a rhesymol ar gyfer siaradwyr Cymraeg Lefel 3 ac uwch os ydyn nhw'n bodloni meini prawf hanfodol swyddi gwag.

**13 - 20**

5. **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchreliad:-**

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd:**
(Y Cynghorydd R Lewis ac Y Cynghorydd C Leyshon)

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**
Y Cynghorydd M Webber, Y Cynghorydd G Caple ac Y Cynghorydd  M Norris

RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 9 Mai 2023 am 3.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Aelodau Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg canlynol yn bresennol:-**

Y Cynghorydd R Lewis (Cadeirydd)

Y Cynghorydd C Leyshon Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd M Norris

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Ms N Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Cymuned a'r Gymraeg
Mr S Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg
Mr S Thomas, Swyddog Prosiect Yr Eisteddfod
Mr O Rowlands, Menter Iaith

**Ymddiheuriadu am absenoldeb**

Y Cynghorydd M Webber

**5 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant.

**6 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2022.

**7 Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu**

Rhannodd yr Uwch Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gydag Is-bwyllgor yr Iaith Gymraeg ar ôl ystyried Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023. Tynnwyd sylw'r aelodau at Adran 5 yr adroddiad eglurhaol, a oedd yn crynhoi prif sylwadau'r Pwyllgor.

Yna rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau Cymraeg gopi diwygiedig i'r Is-bwyllgor o Gynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg i helpu rhoi Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022–2027 ar waith. Cafodd y Strategaeth ei chymeradwyo gan y Pwyllgor ar 25 Hydref 2022.

Estynnodd y Cadeirydd ddiolch a chanmoliaeth i'r swyddogion am yr adroddiad a'r gwaith sydd wedi'i wneud i lunio'r Strategaeth Hybu a Chynllun Gweithredu cadarn. Siaradodd y Cadeirydd am y targedau uchelgeisiol mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynyddu nifer y dysgwyr tua 10% dros y deng mlynedd nesaf, a'r cyfleoedd yn y dyfodol a fydd yn deillio o Eisteddfod 2024. Siaradodd y Cadeirydd yn gadarnhaol hefyd am y cysylltiadau â'r cymunedau a phwysleisiodd bwysigrwydd cymunedau i gyrraedd y targedau uchelgeisiol.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol yn gadarnhaol hefyd am y Strategaeth Hybu a'r Cynllun Gweithredu ac roedd yn teimlo ei bod yn amlwg bod y Gymraeg yn llifo trwy bob rhan o'r Awdurdod Lleol a'i wasanaethau. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn arbennig o falch o nodi bod Aelodau Etholedig a staff yn cael y cyfle i ddysgu'r iaith yn fewnol, a hynny'n rhan o'u swyddi, a nododd fod nifer fawr yn manteisio ar y ddarpariaeth. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r ddarpariaeth yma nid yn unig yn cynyddu'r defnydd o'r iaith mewn lleoliadau gwaith, ond hefyd yn y cartref gyda theuluoedd a ffrindiau.

Canmolodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant gynnwys yr adroddiad. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn cydnabod y byddai'n anodd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ond yn falch o nodi'r camau sydd yn eu lle i roi cyfle i bartneriaid gyfrannu at lwyddiant y strategaeth gyffredinol. Gan gyfeirio at adran 5.6 yr adroddiad, roedd yr Aelod o'r Cabinet yn teimlo y byddai'n bwysig i'r Cyngor fonitro rhan 2 o'r Cynllun Gweithredu.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol am fanteision dysgu'r Gymraeg a'i fod yn teimlo bod yr adroddiad yn dangos ymrwymiad y Cyngor i gyflawni ei nodau. Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet gydnabod bod modd i ddysgu iaith newydd yn ddiweddarach mewn bywyd deimlo'n frawychus a holodd a oedd ffigurau ar gael o ran y niferoedd o'r ddemograffeg yma sy'n manteisio ar y cyfle.

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymraeg i'r Pwyllgor fod Cymraeg i Oedolion yn gweithio'n galed i dargedu'r ddemograffeg, yn enwedig ar adeg pan fo Eisteddfod RhCT ar y gweill. Awgrymodd Rheolwr y Gwasanaeth y dylid cynnwys ystadegau fel hyn yn y Cynllun Gweithredu pan fydd ar gael, a thargedu'r gymuned yn unol â hynny.

Dilynodd trafodaethau ynghylch dysgu Cymraeg y tu allan i leoliadau addysg a rhoddodd y Fenter Iaith wybod i'r Aelodau fod gwaith wedi'i gomisiynu i edrych i mewn i ddata yng Nghyfrifiad 2021 a oedd wedi dangos bod RhCT ar ei hanterth yn y grŵp 18–24 oed, ond ar gyfer pobl 65 oed neu'n hŷn roedd y ffigurau'n isel iawn. O ganlyniad, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod gwaith yn cael ei wneud i gynyddu'r cyfleoedd gyda phartneriaid i ymgysylltu â'r gymuned leol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranogwyr am eu cyfraniadau. **PENDERFYNODD** Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg wneud y canlynol:

1. Nodi sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu;
2. Nodi cynnwys yr adroddiad yma a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig;
3. Cymeradwyo Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022 i 2027.

**8 Adroddiad Monitro Blynyddol – y Gymraeg**

Darparodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymraeg gopi o Adroddiad Blynyddol Drafft Safonau'r Gymraeg 2022–2023 i'r Is-bwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Gwasanaeth am yr adroddiad cynhwysfawr a dywedodd ei fod yn hyderus bod yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r 171 o safonau statudol a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac yn ymdrechu i wella.

Roedd y Cadeirydd yn falch o nodi'r amrywiaeth o fentrau a gyflawnwyd gan wasanaethau'r Cyngor ac i nodi bod y Cyngor wedi cymryd rhan mewn nifer o achlysuron cenedlaethol. Siaradodd y Cadeirydd am y llu o gyfleoedd dysgu ledled RhCT, gan gyfeirio at weithwyr sy'n wynebu'r cyhoedd mewn canolfannau hamdden fel enghraifft o arfer da.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant o blaid yr adroddiad. Nododd bod adborth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfarfod blynyddol y Cyngor gyda'i Swyddog Gosod Safonau a Chydymffurfiaeth a gafodd ei gynnal yn Chwarter 3, 2022–2023 yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn o ran y cynnydd sydd wedi'i weld yn Rhondda Cynon Taf.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol ar y cyfle i ddiolch i Diwtor Cymraeg y Cyngor am estyn cynnig gwersi i staff arlwyo.

Manteisiodd y Fenter Iaith ar y cyfle i siarad am Brosiect Chwaraeon RhCT, a dywedodd ei fod wedi bod yn braf ac yn gadarnhaol. Canmolodd y Fenter Iaith agwedd y garfan, y gwirfoddolwyr ifainc a'r staff; a dywedodd ei fod yn fodel yr hoffai'r Fenter ei ddatblygu ymhellach.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfranogwyr am eu cyfraniadau. **PENDERFYNODD** Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg wneud y canlynol:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad drafft;
2. Cymeradwyo'r adroddiad drafft fel bod modd i fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a chymeradwyo'r gwaith o sicrhau bod yr adroddiad terfynol ar gael ym mhob un o swyddfeydd yr Awdurdod sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf;
3. Cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r cyhoedd bod yr adroddiad blynyddol terfynol wedi cael ei gyhoeddi.

**9 Materion Brys**

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, manteisiodd y Fenter Iaith ar y cyfle i siarad am achlysur Parti Ponty a fyddai'n cael ei gynnal ar benwythnos 12 Mai 2022.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai Parti Pwll Ponty yn cael ei gynnal ar y dydd Gwener lansio'r achlysur, ac y byddai dros 370 o blant ysgol yn dod i Lido Pontypridd am ddim i fwynhau amrywiaeth o weithgareddau a cherddoriaeth fyw. Byddai'r dydd Sadwrn yn dechrau gyda'r Parkrun ac yn parhau gyda pherfformiadau byw, stondinau bwyd a diod, a llu o weithgareddau addas i bob

oed.

Estynnodd y Fenter Iaith ei diolch i'r Awdurdod Lleol am ei gefnogaeth gan ddatgan ei bod yn edrych ymlaen at ddatblygu'r achlysur rhagor yn dilyn llwyddiant disgwyliedig Eisteddfod 2024.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Fenter Iaith am rannu manylion am benwythnos a oedd yn argoeli'n dda ac a fyddai'n ymgorffori hwyl ac ystod amrywiol o weithgareddau mewn amgylchedd dysgu Cymreig.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.42 pm**

**Y Cynghorydd R Lewis**
**Cadeirydd.**

RHONDDA CYNON TAF

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**17 HYDREF 2023**

**RHAGLEN WAITH IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG AR GYFER BLWYDDYN 2023-2024 Y CYNGOR**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR GWASANAETH - GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU, MEWN TRAFODAETH GYDA'R AELOD PERTHNASOL O'R CABINET, Y CYNGHORYDD R LEWIS**

**Awdur:** Hannah Jones, Uned Busnes y Cyngor

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Cyflwyno sylwadau ar y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg eu trafod yn ystod Blwyddyn 2023-24 y Cyngor, a'i chymeradwyo.

## 2. ARGYMHELLION

Argymhellir bod Aelodau Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg yn:

2.1 Cymeradwyo Rhaglen Waith Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg ar gyfer Blwyddyn 2023-24 y Cyngor, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1 ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau.

## 3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Sicrhau dull awdurdod-gyfan wrth ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn benodol y Safonau Statudol sy'n ymwneud â'r Gymraeg / Cynllun Iaith Gymraeg statudol.

## 4. CEFNDIR

4.1 Yn ystod seithfed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar hugain y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022, cyhoeddodd yr Arweinydd ei Gynllun Dirprwyo ar gyfer Blwyddyn 2022-2023 y Cyngor, lle cytunwyd y bydd y Grŵp Llywio bellach yn gweithredu fel Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg, ac o ganlyniad i hynny bydd aelodaeth yr Is-bwyllgor yn cael ei diwygio i gynnwys Aelodau o'r Cabinet gyda'r hawl i bleidleisio i benderfynu ar fater.

4.2 Mae'r rhaglen waith yn ddogfen hyblyg ar gyfer Blwyddyn 2023-24 y Cyngor, a hynny er mwyn rhoi cyfle i newid a diwygio'r ddogfen yn gyson. Mae'r Rhaglen Waith wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

4.3 Yn ystod y cyfnod sydd wedi'i amlinellu, bydd modd newid y rhaglen waith eto er mwyn cynnwys anghenion busnes.

## 5. BUSNES ARFAETHEDIG

5.1 Cynigir y bydd Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg yn cwrdd dwywaith yn ystod blwyddyn 2023-2024 y Cyngor. Bydd modd cynnal cyfarfodydd pellach yn unol â chais y Cadeirydd.

5.2 Bydd Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg yn parhau i fonitro Strategaeth 5 Mlynedd y Cyngor a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

5.3 Yn ogystal â hyn, er mwyn monitro gwaith hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor, bydd yr Is-bwyllgor yn derbyn y newyddion diweddaraf gan y meysydd gwasanaeth gwahanol lle bo angen. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Is-bwyllgor weld yr effaith gadarnhaol y mae darparu gwasanaethau Cymraeg yn ei chael ar drigolion Rhondda Cynon Taf.

## 6. YMGYNGHORI / CYFRANNU

6.1 Mae'r rhaglen waith wedi cael ei llunio gan Uwch Arweinwyr y Cyngor a Chadeirydd Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg.

## 7. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH / DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

7.1 Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb oherwydd bod cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth yn unig.

## 8. GOBLYGIADAU'R GYMRAEG

8.1 Does dim angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg oherwydd bod cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth yn unig.

## 9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

9.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma.

## 10. GOBLYGIAD CYFREITHIOL NEU DDEDDFWRIAETH A DRAFODWYD

10.1 Does dim goblygiadau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma.

## 11. CYSYLLTIADAU Â CHYNLLUN CORFFORAETHOL / BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL ERAILL Y CYNGOR

11.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016.

## 12. CASGLIAD

12.1 Er mwyn chwarae ein rhan ni yn y weledigaeth genedlaethol o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg wedi sefydlu rhaglen waith gadarn i sicrhau dull Awdurdod-gyfan wrth ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a gosod cyfeiriad strategol ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

**FEL SYDD WEDI'I DIWYGIO GAN**

**DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**17 HYDREF 2023**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR GWASANAETH – GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU.**

# Rhaglen Waith Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg

**Blaengynllun Busnes arfaethedig Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg ar gyfer Blwyddyn 2023/24 y Cyngor**

**Cyfnod Penodol: Hydref 2023 - Mai 2024**

**Nodwch - Bydd modd newid y rhaglen waith i gynnwys unrhyw adroddiadau ychwanegol neu'u dileu.**

**Swyddog: Hannah Jones (Rhif Ffôn. 07385401954)**

| ADRODDIAD | DYDDIAD Y CYFARFOD | SWYDDOG CYFRIFOL | SYLWADAU / HYNT Y GWAITH |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Waith Ddrafft 2023-24 | Hydref 2023 | Hannah Jones | |
| Gwella Proses Recriwtio'r Cyngor o ran Denu Siaradwyr Cymraeg 2022–2027 | Hydref 2023 | Steffan Gealy | |
| Adroddiad Er Gwybodaeth: Y Gymraeg yn y Celfyddydau, Diwylliant a'r Llyfrgelloedd | Mai 2024 | Caroline O'Neill | |
| Adroddiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg | Mai 2024 | Steffan Gealy | |

RHONDDA CYNON TAF

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**17 HYDREF 2023**

# GWELLA PROSES RECRIWTIO'R CYNGOR O RAN DENU SIARADWYR CYMRAEG 2022–2027

**ADRODDIAD AR Y CYD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CYMUNED A CHYFARWYDDWR MATERION ADNODDAU DYNOL MEWN TRAFODAETH GYDA DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. RHYS LEWIS A'R DIRPRWY ARWEINYDD, Y CYNG. MAUREEN WEBBER**

**AWDUR(ON):** Richard Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol; Louise Davies, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned; Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau Cymraeg; Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Prif amcan yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg er mwyn i Staff Adnoddau Dynol a staff Gwasanaethau Cymraeg ddechrau'r gwaith o ddrafftio Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar gyfer siaradwyr Cymraeg Lefel 3 ac uwch os ydyn nhw'n bodloni meini prawf hanfodol swyddi gwag.

1.2 Mae cyflwyno Cynllun Gwarantu Cyfweliad wedi'i nodi'n gam gweithredu yn strategaeth statudol 5 mlynedd y Cyngor o ran hybu'r Gymraeg a'i chynllun gweithredu ategol. Cytunodd y Pwyllgor yma i wneud hyn mewn cyfarfodydd a gafodd eu cynnal ar 25 Hydref 2022 a 9 Mai 2023.

## 2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i'r Aelodau:

2.1 Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol a'r Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg i ddrafftio Cynllun Gwarantu Cyfweliad sy'n gyraeddadwy ac yn rhesymol ar gyfer siaradwyr Cymraeg Lefel 3 ac uwch ar yr amod bod ymgeiswyr yn bodloni meini prawf hanfodol y swydd wag. Bydd hyn yn unol â cham gweithredu a gafodd ei gytuno a'i nodi yn strategaeth statudol y Cyngor ar gyfer hybu'r Gymraeg.

2.2. Yn amodol ar 2.1 uchod, dirprwyo'r penderfyniad i weithredu i Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, mewn ymgynghoriad ag Aelodau perthnasol y Cabinet o ran materion Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Cymraeg.

2.3 Yn amodol ar 2.1 a 2.2 uchod, unwaith y bydd y Cynllun ar waith, cynnwys is-bennawd ar hysbysebion swyddi yn amlygu'r cynllun gwarantu cyfweliad.

2.4 Cytuno i gynnal adolygiad i fesur llwyddiant y Cynllun, unwaith y bydd y Cynllun ar waith am gyfnod o 12 mis.

## 3. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n ein gorfodi ni i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae ein strategaeth 5 mlynedd yn gosod targed i ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

3.2 Byddai cymeradwyo'r Cynllun yn cyd-fynd â strategaeth statudol 5 mlynedd y Cyngor ar gyfer hybu'r Gymraeg a'i gynllun gweithredu ategol, fel y cytunodd y Pwyllgor yma mewn cyfarfodydd ar 25 Hydref 2022 a 9 Mai 2023.

3.3 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hefyd wedi cytuno y dylai nifer y staff sy'n siarad Cymraeg ym mhob maes gwasanaeth sy'n ddigon cymwys i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd adlewyrchu'r ganran o drigolion RhCT sy'n siarad Cymraeg yn ôl pob Cyfrifiad, sef 12.4% ar hyn o bryd. Lefel 3 yw'r lefel isaf rydyn ni'n ei dderbyn er mwyn darparu gwasanaeth priodol trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.4 Y nod yw mabwysiadu Cynllun Gwarantu Cyfweliad (tebyg i'r un a gymeradwyodd y Cyngor eisoes ar gyfer ein cyn-filwyr, cliciwch yma [adroddiad yn Saesneg yn unig]). Bydd yn cael effaith sylweddol ar ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein gweithlu, gan greu cyfleoedd i staff y Cyngor a thrigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

3.5 Byddai'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad yn sicrhau y bydd cyfweliad i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol sydd wedi'u nodi mewn unrhyw becyn swydd. Fodd bynnag, fyddai'r cynllun ddim yn gwarantu cynnig swydd, gan y byddai gweithdrefnau dethol yn sicrhau bod yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd yn cael ei benodi.

3.6 Bydd mabwysiadu'r Cynllun yn ategu ac yn atgyfnerthu Strategaeth Adnoddau Dynol newydd y Cyngor 2023–2028 a Chynllun Gweithlu'r Cyngor 2023–2028.

## 4. CEFNDIR

4.1 Cymeradwyodd Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg gopi diwygiedig o Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'i gynllun gweithredu ategol ar 25 Hydref 2022 a 9 Mai 2023, yn unol â gofynion Safon 145 yr Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn unol ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

4.2 Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â Chynllun Strategol newydd y Gymraeg mewn Addysg 2022–2032 er mwyn i'r Cyngor chwarae rhan bwysig wrth gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

4.3 Mae'r Strategaeth yma'n parhau i ganolbwyntio ar y tair prif thema genedlaethol sydd wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru, sef:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu defnydd y Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

4.4 Ar hyn o bryd, dim ond 7% o weithlu'r Cyngor sydd yn medru siarad Cymraeg ar Lefel 5. Mae 2.2% ar Lefel 4 a 2.1% ar Lefel 3.

4.5 Mae ymdrechion clodwiw'r Cyngor i gynyddu nifer ei staff sy'n siarad Cymraeg wedi cael effaith gadarnhaol trwy ei bolisi o wneud Sgiliau Cymraeg Lefel 1 yn hanfodol ar gyfer pob swydd yn y Cyngor sy'n cael ei hysbysebu a bod Lefel 2–5 yn ddymunol (Polisi Adnoddau Dynol 'Y Gymraeg – Recriwtio a Dethol Cyngor Rhondda Cynon Taf' – mis Mawrth 2018). Gwaetha'r modd, mae hunanwerthusiad gwasanaeth blynyddol y Cyngor yn awgrymu darlun cymysg iawn o ran ble mae'r capasiti presennol yn bodoli, gyda rheolwyr yn nodi'n gyson yr angen i wella capasiti o ran sgiliau Cymraeg o fewn eu carfanau.

4.6 Bydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn meysydd gwasanaeth hefyd o bosibl yn lleihau'r ddibyniaeth ar staff cyfieithu Gwasanaethau Cymraeg a'r costau cysylltiedig, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb i'r cyhoedd.

4.7 Ar ben hynny, dylai Strategaeth Mwy na Geiriau (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg yn y meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol) hefyd elwa yn sgil y Cynllun. Mae'n rhaid i'r Cyngor fodloni gofynion statudol y

Strategaeth ac mae anawsterau o ran recriwtio staff â sgiliau Cymraeg priodol yn gyffredin.

4.8 Yn ogystal, byddai gweithredu'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad yn dod â buddion ehangach i'n darpar weithwyr sy'n byw yn ein hardal ni yn y dyfodol trwy roi gwerth ychwanegol go iawn iddyn nhw gynnal y sgiliau Cymraeg y bydden nhw wedi'u magu yn ein lleoliadau addysg. Efallai y bydd hefyd yn agor y Cyngor i grŵp o ymgeiswyr fyddai ddim o reidrwydd wedi ystyried Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ddarpar gyflogwr fel arall.

## 5. <u>Y SEFYLLFA BRESENNOL</u>

5.1 Yn ystod seminar ym mis Gorffennaf 2023 wedi'i hwyluso gan Gomisiynydd y Gymraeg a'r cwmni cyfraith fasnachol, Darwin Grey, cafodd ei bwysleisio bod rhwymedigaeth gyfreithiol ar Gynghorau i feddu ar gapasiti sgiliau Cymraeg digonol i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg.

5.2. Y prif ddylanwad ar allu sefydliadau i ddarparu gwasanaethau priodol yn y Gymraeg yw nifer eu staff sydd â sgiliau Cymraeg. Mae cynyddu lefel y staff sydd â sgiliau Cymraeg felly'n hanfodol er mwyn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg.

5.3 Nododd adolygiad diweddar gan Gomisiynydd y Gymraeg o gyrff cyhoeddus sy'n gorfod bodloni'r gofynion cyfreithiol bod y cyrff cyhoeddus hynny yn methu â denu siaradwyr Cymraeg rhugl ac yn methu â denu siaradwyr Cymraeg i lenwi rhai mathau penodol o swyddi.

5.4 Un o'r rhesymau a gafodd ei nodi fel achos y methiannau uchod oedd diffyg ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg neu'r ddemograffeg ddymunol, efallai oherwydd diffyg hyder o ran sgiliau Cymraeg neu ddiffyg ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith ar gyfer swyddi arbenigol.

5.5 Yn ei Adroddiad Sicrwydd ar gyfer 2021–22, 'Y Gymraeg fel ffordd o weithio', mae Comisiynydd y Gymraeg yn nodi ei fod yn parhau i gredu fod *dim* newid sylfaenol wedi digwydd o ran cynllunio a gweithredu recriwtio, asesu sgiliau iaith Gymraeg na datblygu sgiliau yn y gweithle i wella lefelau cydymffurfiaeth sefydliadau o ran Safonau'r Gymraeg yn gyffredinol.

5.6 Mewn ymateb, bydd Comisiynydd y Gymraeg felly'n cymryd camau ac yn rheoleiddio'r maes strategol pwysig yma wrth ganfod methiannau. Mae wedi rhybuddio cyrff cyhoeddus i fabwysiadu trefniadau digonol o ran recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg.

5.7 Efallai y bydd cyflwyno Cynllun Gwarantu Cyfweliad yn cyfrannu rhywfaint at leddfu peryglon i'r Cyngor, gan ddangos i Gomisiynydd y

Gymraeg fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf unwaith eto ar flaen y gad o ran arloesi ffyrdd o weithredu Safonau'r Gymraeg ond hefyd yn caniatáu i ddarpar ymgeiswyr a'r Cyngor oresgyn unrhyw rwystrau i ddatrys problemau recriwtio siaradwyr Cymraeg.

**6. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH / DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**

6.1 Mae'n debyg mai'r cyfyngiad mwyaf ar fynd i'r afael â'r mater o sgiliau iaith yn y gweithlu yw'r hyn sydd wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae modd i amod, maen prawf neu arfer amhriodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson feddu ar sgiliau Cymraeg er mwyn cael swydd fynd yn groes i'r Ddeddf drwy fod yn weithred o wahaniaethu anuniongyrchol. Yn gyffredinol, mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn person neu bersonau ar sail hil. Mae hil yn cynnwys lliw, cenedligrwydd a tharddiad ethnig neu genedlaethol. Er enghraifft, mae modd honni bod mynnu sgiliau Cymraeg yn groes i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar y sail y byddai'n rhoi mantais i bobl o gefndir Cymraeg dros bobl o darddiadau cenedlaethol eraill mewn proses recriwtio neu mewn gwaith. Dyw hyn ddim yn wir o reidrwydd ond mae'r Ddeddf yn cynnwys eithriad allweddol beth bynnag; os oes rhesymau dilys dros hysbysebu swydd wag â gofynion ieithyddol yn gysylltiedig â'r swydd, ac y mae modd eu cyfiawnhau mewn ffordd wrthrychol, yna dyw hynny ddim yn wahaniaethu hiliol anghyfreithlon. Felly, er enghraifft, dyw gofyn am sgiliau Cymraeg mewn hysbyseb swydd (boed yn hanfodol neu fel arall) ddim yn wahaniaethu anghyfreithlon os oes modd cyfiawnhau gwneud hynny[1].

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyflawni cyn gweithredu unrhyw gynllun sy'n cael ei gytuno.

**7. YMGYNGHORI**

7.1 Bydd angen i Undebau Llafur gymryd rhan yn y gwaith o lunio unrhyw bolisi.

**8. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

8.1 Does dim goblygiadau ariannol penodol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma.

**9. GOBLYGIADAU'R GYMRAEG**

[1] Mae hefyd yn werth nodi bod cyfraith achosion wedi ystyried gwarchod gwreiddiau cenedlaethol o fewn y Deyrnas Unedig ac wedi dod i'r casgliad bod gwreiddiau unigryw "y Cymry", "yr Albanwyr" ac ati yn debygol o gael eu hamddiffyn gan y Ddeddf Cydraddoldeb.

9.1 Bydd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn cael ei gyflawni cyn cytuno ar unrhyw gynllun.

## 10. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL A DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

10.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol ar gyfer y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio'r gwaith yma. Mae'r strategaeth hefyd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Mwy Na Geiriau (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol Cymraeg) a Chynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).

10.2 O ran Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn benodol, y canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig yma:

a. Statws Swyddogol y Gymraeg,
b. Rhwymedigaethau statudol clir yn gofyn am hybu'r Gymraeg,
c. Yr egwyddor statudol na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg,

ch. Y ffaith bod deddfwriaeth Gymreig yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael statws cyfartal i bob pwrpas; ac

d. Angen y Cyngor i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

## 11. CASGLIAD

11.1 Bydd cyflwyno Cynllun Gwarantu Cyfweliad yn cryfhau sefyllfa'r Cyngor wrth fodloni'r gofynion statudol o ran y Gymraeg a darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn lleihau'r perygl o weithredu cyfreithiol yn ei erbyn.

11.2 Yn ogystal, bydd y cynllun hefyd o fudd i'r Cyngor fel cyflogwr yn sgil dewis ehangach posibl o ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ac sydd â nifer fawr o sgiliau y mae modd eu trosglwyddo.

11.3 Mae'n werth ailadrodd y byddai'r cynllun gwarantu cyfweliad dim ond yn sicrhau cyfweliad i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol sydd wedi'u nodi mewn unrhyw becyn swydd. Fydd y cynllun ddim yn gwarantu cynnig swydd gan y byddai gweithdrefnau dethol yn sicrhau bod yr ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd yn cael ei benodi.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

**FEL SYDD WEDI'I DIWYGIO GAN**

**DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**17 HYDREF 2023**

**ADRODDIAD AR Y CYD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD A GWASANAETHAU CYMUNED A CHYFARWYDDWR MATERION ADNODDAU DYNOL MEWN TRAFODAETH GYDA DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. RHYS LEWIS A'R DIRPRWY ARWEINYDD, Y CYNG. MAUREEN WEBBER**

**GWELLA PROSES RECRIWTIO'R CYNGOR O RAN DENU SIARADWYR CYMRAEG 2022–2027**

**Papurau Cefndir**

Dim

Tudalen wag